
CABINET Y CYNGOR 09/10/12

Yn bresennol – Y Cyngorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cyngorwyr – Sian Gwenllian, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, W Gareth Roberts, Ioan Thomas, Paul Thomas, John Wyn Williams, R H Wyn Williams ac Eric M Jones (Aelod Lleol)

Hefyd yn bresennol - Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Tony Bate (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriad : Y Cyngorydd Brian Jones

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2012 fel rhai cywir gan nodi bod y Cyngorydd Caerwyn Roberts yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod lleol ar gyfer yr eitem yn ymwneud a Gwaredu Tir Pant yr Eithin, Harlech.

3. CYNLLUN BLAENORIAETHAU – MAES TREFNIADAETH DARPARIAETH ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyngorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet – Addysg a Phlant a Phobl Ifanc

PENDERFYNWYD derbyn y cyfeiriad a amlinellir yn yr adroddiad gan nodi cynnwys y Cynllun Blaenoriaethau sy'n cynnwys materion y penderfynwyd arnynt eisoes, ac yn ychwanegol –

- a) Blaenoriaethu adolygiad o ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Y Groeslon, i gynnwys Carmel a Bronyfoel (Fron).
- b) Bwrw ymlaen a symud trafodaeth sefyllfa ysgolion Meirionnydd gan adrodd ymhellach ar fanylion y cynllun i'r Cabinet.
- c) Cynnal gwaith ymchwil i sefyllfa llefydd gweigion yn ysgolion y sir ac ystyried cynlluniau i leihau llefydd gweigion.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1.45pm.

CADEIRYDD